Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pendalar

**Ffordd Bethel**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1DU**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Pendalar

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pendalar |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Arbennig |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 113 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 83 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Arbennig a Gynhelir yw 46.2%) | 36.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Arbennig a Gynhelir yw 99.8%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 50% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2016 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/05/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/10/2023 |

Lleolir Ysgol Pendalar yn nhref Caernarfon a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae'n ysgol ddydd arbennig, naturiol ddwyieithog, ar gyfer disgyblion rhwng tair a 19 mlwydd oed. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ardaloedd gogledd Gwynedd.

Mae'r ysgol yn cynnig nifer o gyfleusterau arbenigol gan gynnwys pwll hydro therapi ac ystafelloedd synhwyraidd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am ddarparu cynlluniau ffisiotherapi, therapi iaith a lleferydd, therapi galwedigaethol, a chynorthwywyr gofal iechyd o fewn yr ysgol.

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Pendalar yn gymuned glos a chyfeillgar lle mae staff a disgyblion yn cydweithio'n hapus a chadarnhaol. Ar y cyfan, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydymffurfio â gofynion athrawon ac yn setlo'n fuan i weithgareddau a thasgau. Mae llawer yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, yn gwrando'n ofalus ar staff ac yn ymddwyn yn barchus tuag at eu cyd-ddisgyblion. Maent yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn cydweithio'n hwylus ag athrawon a staff cymorth.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Fodd bynnag, mae diffyg cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau cyfathrebu, darllen ac ysgrifennu estynedig.

Mae gan Ysgol Pendalar gwricwlwm cytbwys sy'n canolbwyntio ar y disgybl. Er bod y cwricwlwm yn cefnogi anghenion disgyblion yn gyffredinol, mae diffyg cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau byw yn annibynnol.

Nid yw ansawdd yr addysgu yn gyson ar draws yr ysgol. Mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu'n effeithiol. Ar y cyfan, mae staff yn diwallu anghenion disgyblion yn briodol mewn ystod addas o weithgareddau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn cynllunio profiadau dysgu a thasgau digon heriol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a rennir gan yr holl staff. Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar greu ysgol sy'n gosod y disgybl yng nghanol yr holl benderfyniadau. Mae'r staff yn dîm ymroddgar a gweithgar. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac maent yn angerddol am eu gwaith.

Er bod rhesymeg gryf i'r blaenoriaethau gwella cyfredol, nid ydynt yn deillio'n uniongyrchol o brosesau hunanwerthuso eang. Mae'r blaenoriaethau wedi eu seilio ar werthusiadau anffurfiol gan aelodau'r uwch dîm rheoli, ac nid ydynt yn adlewyrchu rhai meysydd pwysig i'w gwella, fel addysgu. Nid yw'r ysgol yn cynllunio amserlen sicrhau ansawdd a gweithgareddau defnyddiol fel monitro ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ac arfarnu cynnydd disgyblion. Mae hyn yn rhwystro arweinwyr rhag adnabod gwir gryfderau a meysydd datblygu'r ysgol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau arweinyddiaeth strategol ar bob lefel a sicrhau bod cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac wedi eu dyrannu'n gytbwys

A2 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

A3 Cryfhau addysgu a chynllunio ar gyfer datblygu medrau cynyddol disgyblion yn systematig

A4 Sicrhau cyfleoedd cadarn i ddisgyblion ddatblygu medrau byw yn annibynnol a symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu bywyd

A5 Cryfhau rôl y corff llywodraethol fel bod eu dealltwriaeth o gryfderau a meysydd i wella’r ysgol yn eu galluogi i weithredu’n effeithiol fel cyfeillion beirniadol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd addas o’u mannau cychwyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol wrth wella eu medrau cyfathrebu. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando’n ofalus ar eu hathrawon a’r staff cymorth wrth siarad â nhw yn unigol. Mae disgyblion yn ymateb yn addas gan ddefnyddio ystod amrywiol o ddulliau cyfathrebu. Mae’r disgyblion sy’n defnyddio arwyddion, symbolau neu ddyfais i gyfathrebu yn gwneud hynny’n bwrpasol. Er enghraifft, maen nhw’n mwynhau defnyddio arwyddion wrth ddilyn cân neu’n defnyddio eu dyfeisiadau er mwyn ateb cwestiynau syml. Mewn sgyrsiau dosbarth, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cyfraniadau llafar priodol ac yn ateb trwy ddefnyddio geiriau unigol neu frawddegau byrion. Mae lleiafrif y disgyblion yn cymryd eu tro yn addas, yn gwrando â diddordeb ar eu cyfoedion ac yn adrodd am ddigwyddiadau a rhannu gwybodaeth yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae ganddynt berthnasoedd gwaith da â staff ac mae llawer o’r disgyblion yn ofalgar o’i gilydd. Er enghraifft, maen nhw’n dathlu llwyddiannau ei gilydd yn naturiol ac yn gweld eisiau eu ffrindiau sy’n absennol o’r ysgol.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol buddiol yn unol â’u gallu a’u hanghenion. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn casglu eu byrbrydau ac yn tacluso’n bwrpasol ar ddiwedd sesiwn snac. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dysgu eu hunain wrth ddilyn trefn gyfarwydd yn y dosbarth. Maen nhw’n symud o un dasg i’r llall yn rhwydd trwy ddefnyddio eu hamserlenni gweledol yn effeithiol. Mae lleiafrif yn datblygu ychydig o fedrau pwysig a fydd yn cefnogi eu hannibyniaeth ar ôl gadael yr ysgol mewn meysydd pwysig fel paratoi bwyd neu ofalu am anifeiliaid.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn addas yn unol â'u gallu. Er enghraifft, maen nhw'n adnabod sŵn llythrennau ac yn adeiladu geiriau unigol. Mae ychydig o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus i'w cyfoedion ac yn mentro'n hyderus wrth wynebu geiriau newydd ac anghyfarwydd. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn adnabod a lleoli ffeithiau mewn darnau darllen.

Lle bo'n berthnasol, mae disgyblion yn ymarfer ac yn datblygu eu medrau ysgrifennu trwy wneud marciau ar bapur a ffurfio llythrennau. Maen nhw'n datblygu eu dealltwriaeth o atalnodi a gramadeg trwy ddefnyddio prif lythrennau a chysyllteiriau i ffurfio brawddegau mwy cymhleth neu'n ysgrifennu camau mewn rysáit i baratoi pitsa. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn mynegi eu hunain yn eglur gan ddefnyddio ystod addas o eirfa ac yn llunio brawddegau eglur. Er enghraifft, maen nhw'n defnyddio ansoddeiriau i ddisgrifio awyrgylch prom y chweched dosbarth. Fodd bynnag, mae diffyg cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu estynedig yn systematig.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn bwrpasol yn enwedig o fewn cyd-destunau bywyd bob dydd. Er enghraifft, maen nhw'n adnabod darnau arian yn gywir ac yn datblygu hyder i ddefnyddio arian trwy siopa yn y gymuned neu amcangyfrif cost mynychu sesiynau chwaraeon yn y ganolfan hamdden.

Yn unol â'u gallu, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau motor mân yn effeithiol trwy wneud marciau a siapau mewn tywod, defnyddio gwialen bysgota ac addurno cacennau gyda siapiau blodau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau motor mawr yn bwrpasol trwy chwarae ar sgwteri a mwynhau amser ar y siglen.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol. Maent yn creu peintiadau lliwgar o goed gyda phopcorn ac yn mwynhau canu a dawnsio gyda'u  cyfoedion yn eu dosbarthiadau pan gânt y cyfle.

Yn yr awyr agored, mae disgyblion yn datblygu chwilfrydedd wrth greu cychod er mwyn arbrofi ag arnofio a suddo, maen nhw'n coginio malws melys dros y pwll tân ac yn chwilio am flodau sy'n cyd-fynd â'r olwyn liw.

Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol. Maen nhw'n defnyddio rhaglenni addas er mwyn chwarae gemau rhif neu lythrennedd. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu uwch fedrau digidol defnyddiol trwy greu codau QR a chreu clipiau ffilm digidol yn llwyddiannus.

Mae bron bob un o'r disgyblion hŷn yn astudio ystod o gyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at ennill unedau o gymwysterau buddiol iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau lefel mynediad o fewn cyrsiau byw yn annibynnol a medrau bywyd a gwaith.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn gyfeillgar a chwrtais tuag at staff ac ymwelwyr. Ar y cyfan, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydymffurfio â gofynion athrawon ac yn setlo'n fuan i weithgareddau a thasgau. Mae llawer yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, yn

gwrando’n ofalus ar staff ac yn ymddwyn yn barchus tuag at eu cyd-ddisgyblion. Maent yn ymgysylltu’n dda â’u dysgu ac yn cydweithio’n hwylus gydag athrawon a staff cymorth.

Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn cydweithio’n fuddiol mewn parau a grŵpiau bach. Fodd bynnag, oherwydd cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion gydweithio’n annibynnol o'r athro yn y dosbarth, ac ar adegau eraill, nid ydynt yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent mewn medrau cydweithredu. Nid yw mwyafrif y disgyblion yn cael cyfleoedd digon cyson i fwynhau cwmni ei gilydd a datblygu dealltwriaeth o berthyn i deulu’r ysgol gyfan mewn sefyllfaoedd torfol fel aelodau o glybiau, mewn gwasanaethau dathlu llwyddiant a gweithgareddau hwyliog ysgol gyfan. Er hyn, pan ddaw’r disgyblion at ei gilydd mewn gwasanaethau penodol, maent yn mwynhau cyd-ganu a gwrando ar gyflwynydd yn siarad am faterion o bwys, fel ethos gweithio fel tîm trwy ystyried cyfraniad tîm rygbi Cymru i gystadleuaeth Cwpan y Byd.

Dros amser, mae llawer o’r disgyblion yn datblygu’n unigolion hyderus, cyfeillgar ac aeddfed. Maent yn mwynhau cymdeithasu a phrynu snacs mewn caffi lleol ac yn datblygu hyder mewn sefyllfaoedd dydd i ddydd wrth siopa yn yr archfarchnad. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau personol gwerthfawr wrth gymryd rhan mewn sesiynau beicio gyda’u cyfoedion. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu medrusrwydd i hunanreoli, ymlacio a bod yn feddylgar trwy gymryd rhan mewn sesiynau adweitheg dwylo buddiol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cynyddu eu dealltwriaeth o garedigrwydd a’u hystyriaeth o eraill yn ogystal ag ymarfer medrau byw pwysig wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian fel pobi cacennau ar gyfer bore coffi Macmillan.

Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu medrau arwain gwerthfawr fel aelodau o’r cyngor ysgol a’r grŵp lles. Mae’r grwpiau hyn wedi dylanwadu’n gadarnhaol ar rai agweddau o waith yr ysgol. Er enghraifft, o ganlyniad i holiadur casglu barn eu cyfoedion, mae aelodau’r cyngor ysgol wedi cydweithio ag arweinwyr i gynyddu offer ac adnoddau chwarae tu allan. Yn ogystal, mae’r grŵp lles yn ymgyrchu’n galed i godi arian ar gyfer prynu beiciau hygyrch i’w defnyddio yn yr ysgol ac yn y gymuned.

Mae disgyblion hŷn yn cynyddu eu dealltwriaeth o fyd gwaith a sut beth fydd bywyd ar ôl iddynt adael yr ysgol yn lled briodol trwy eu cyrsiau galwedigaethol. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu medrau byw’n annibynnol na medrau hunanofal yn ddigon cyson. Nid yw’r ysgol yn darparu cyfleoedd digon perthnasol a chyson i sicrhau bod disgyblion yn dysgu ac yn ymarfer tasgau domestig er mwyn cyflawni gweithgareddau bob dydd fel defnyddio cludiant cyhoeddus a gwasanaethau eraill yn annibynnol. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn datblygu medrau annibynnol hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn i symud i’r cam nesaf yn eu bywyd.

Ar y cyfan, mae presenoldeb ysgol gyfan yn dda ac yn debyg i’r hyn a welir mewn ysgolion arbennig tebyg.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Nid yw ansawdd yr addysgu yn gyson ar draws yr ysgol. Mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu'n effeithiol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dealltwriaeth a’u medrau. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio

disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu mewn gweithgareddau sy'n eu hysgogi i ddysgu. Yn y gwersi hyn, mae'r cyflymder yn bwrpasol ac mae athrawon yn defnyddio holi ac adborth llafar yn effeithiol trwy gydol y wers i asesu dealltwriaeth disgyblion. Maent yn defnyddio adnoddau'n fedrus i gefnogi'r dysgu.

Mae gan athrawon a chynorthwywyr dysgu berthynas gadarnhaol â disgyblion ac, yn gyffredinol, maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, ar adegau, mae ymddygiad ychydig iawn o ddisgyblion yn ymyrryd â dysgu disgyblion eraill.

Ar y cyfan, mae staff yn diwallu anghenion disgyblion yn briodol mewn ystod addas o weithgareddau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn cynllunio profiadau dysgu a thasgau digon heriol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf.

Mae staff yn defnyddio amryw strategaethau cefnogi cyfathrebu yn bwrpasol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarwyddo llafar eglur, defnyddio symbolau a'r defnydd o arwyddo. Mae mwyafrif yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau digidol i gynorthwyo disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio ystod addas o dasgau i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu uwch fedrau darllen ac ysgrifennu estynedig.

Yn gyffredinol, mae adborth athrawon ar lafar yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon o hyd yn cynnwys sylwadau ar ansawdd y gwaith nac yn nodi'n glir y camau nesaf i ddisgyblion.

Mae defnydd staff o'r Gymraeg ar draws y dosbarthiadau yn amrywiol. Gan amlaf, mae staff yn cyfathrebu yn Gymraeg ac yn sicrhau bod disgyblion yn deall ac yn ymateb yn y Gymraeg. Mewn ychydig o achosion, mae tueddiad i ganiatáu i drafodaethau barhau yn y Saesneg.

Mae gan yr ysgol system olrhain cynnydd briodol i fonitro cynnydd disgyblion sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff drosolwg clir o gynnydd disgyblion dros amser ond nid ydynt yn gwneud defnydd digon effeithiol o'r wybodaeth hon i herio disgybion trwy wahaniaethu tasgau'n bwrpasol.

Defnyddia'r ysgol lwyfan electronig i gyfathrebu'n ddyddiol â rhieni. Mae hwn yn galluogi rhieni i weld gwaith a gwblheir yn yr ysgol gan eu plentyn. Mae llawer o rieni yn gwerthfawrogi'r wybodaeth y maent yn ei derbyn am gynnydd a lles eu plentyn. Mae adroddiadau blynyddol ar gyfer rhieni yn briodol ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol.

Mae holl staff yr ysgol wedi cydweithio'n briodol er mwyn darparu cwricwlwm cytbwys sy'n canolbwyntio ar y disgybl a'u targedau unigol. Fodd bynnag, er bod y cwricwlwm yn cefnogi anghenion disgyblion yn gyffredinol, nid yw'r staff yn darparu cyfleoedd digon effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau byw yn annibynnol.

Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio'n fuddiol ar addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol a lles. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i ddisgyblion wneud dewisiadau priodol er mwyn gwneud dewisiadau iach ac i gadw eu hunain yn

ddiogel. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymchwilio, trafod a rhannu gwybodaeth am fwydydd iach.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â nifer o sefydliadau allanol i sicrhau bod disgyblion yn elwa o ystod bwrpasol o brofiadau ac adnoddau dysgu gwerthfawr. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion yn cael mynediad at sesiynau beicio gyda menter gymdeithasol, marchogaeth yn y stablau lleol a chydweithio mewn gweithdai cerdd gyda cherddor proffesiynol. Mae'r ysgol yn trefnu gwersi offerynnol unigol i ychydig o ddisgyblion trwy'r gwasanaeth cerdd sirol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at ddatblygu hunanhyder, datblygiad corfforol a chreadigrwydd disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau ymweld â mannau o ddiddordeb lleol fel castell Caernarfon, Cadeirlan Bangor ac Amgueddfa Lechi Llanberis. Yn ogystal, mae rhai cyfleoedd i ddisgyblion fod yn rhan o weithgareddau allanol blynyddol fel pentathlon, pysgota a dringo.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Pendalar yn gymuned glos a chyfeillgar lle mae staff a disgyblion yn cydweithio'n hapus a chadarnhaol. Mae staff yn ymfalchïo yn y berthynas agos a chynnes y maent yn ei meithrin gyda'r disgyblion, ac yn eu hadnabyddiaeth ohonynt. Mae holl gymuned yr ysgol yn arddel gwerthoedd o barch a chyfeillgarwch. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn parchu'r staff sy'n gofalu amdanynt ac yn eu haddysgu ac mae ymddygiad llawer o'r disgyblion yn dda.

Yn ddiweddar, mae staff penodol wedi cydweithio'n dda i ystyried darpariaeth lles ar draws yr ysgol ar gyfer hybu llesiant disgyblion. Maent wedi crynhoi'r cynnig cwricwlaidd sydd yn cyfrannu at eu lles ac wedi cynllunio'n bwrpasol i gryfhau'r cynnig trwy ychwanegu cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored. Mae hyn wedi arwain at ennill gwobr lles gydnabyddedig.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddeall y gwahaniaeth rhwng da a drwg ac i ddatblygu'n unigolion moesol ac ysbrydol. Mae trefniadau addoli ar y cyd yn gadarn. Mae'r staff yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynyddu eu dealltwriaeth o nodweddion pwysig fel parch ac empathi yn y gwersi a thrwy drefnu gweithgareddau dyngarol. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at gymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach trwy gyd-drefnu digwyddiadau hel arian at achosion da a threfnu dathliadau, fel gwŷl synhwyraidd y Nadolig yng ngardd yr ysgol, a gweithgareddau yn ystod yr wythnos lles.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ychydig o ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain trwy gynrychioli eu cyd-ddisgyblion yn y cyngor ysgol a'r pwyllgor lles. Cânt gyfleoedd gwerth chweil i fynegi barn ac i gynnig syniadau sy'n cyfrannu at wella'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol ac ychydig o weithgareddau ysgol gyfan. Ar y cyfan, mae cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a mynegiannol, er enghraifft trwy gystadlu yn eisteddfod yr Urdd a chymryd rhan mewn cyngerdd haf yn yr ardd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddathlu eu hunaniaeth Gymraeg a Chymreig trwy weithgareddau megis diwrnod 'Shwmae Sumae' a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Nid yw'r ysgol yn darparu digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddod at ei gilydd yn dorfol i ddathlu llwyddiannau, i

gyd-ganu, nac i fwynhau gweithgareddau ysgol gyfan. Ychydig o gyfleoedd yn unig sy’n cael eu cynnig i ddisgyblion ddatblygu creadigrwydd a hyder corfforol.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n bwrpasol ag asiantaethau allanol penodol i sicrhau bod cynllunio gofalus ar gyfer trosglwyddo disgyblion i’r cam nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae pob un disgybl yn symud i addysg ôl-16 yn yr ysgol neu mewn coleg. Mae hyn yn elfen gref.

Nid yw’r ysgol yn cynllunio cyfleoedd digonol i ddatblygu medrau byw’n annibynnol y disgyblion. Er enghraifft, ychydig iawn o gyfleoedd sydd i ddisgyblion ddysgu sgiliau domestig, i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn annibynnol a mynd i leoliadau gwaith ar eu pennau eu hunain yn rheolaidd.

Mae trefniadau cynllunio, gweinyddu a monitro y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gadarn. Mae hyn yn cynnwys gosod targedau unigol addas i ddisgyblion a threfniadau adolygu sefydlog. Mae athrawon yn llunio proffiliau cynhwysfawr o’r disgyblion dan eu gofal sy’n galluogi staff cymorth sy’n gweithio gyda’r disgyblion a’u teuluoedd i ddeall pa strategaethau sydd orau wrth weithio gyda nhw. Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol â rhieni a chydag asiantaethau allanol i gefnogi eu gwaith.

Mae’r ysgol yn arddel diwylliant clir o ddiogelu. Mae trefniadau hyfforddiant i staff yn bwrpasol ac yn bodloni gofynion statudol. O ganlyniad, mae staff addysgu a chymorth yn deall eu cyfrifoldeb i gadw disgyblion yn ddiogel ac maent yn dilyn trefniadau’r ysgol i adrodd ar unrhyw bryder yn gywir. Ar y cyfan, mae arweinwyr perthnasol yn ymateb yn briodol i’r wybodaeth hon. Mae athrawon yn cydweithio’n briodol ag asiantaethau allanol i rannu gwybodaeth am lest eu disgyblion, pan fo angen. Gwneir defnydd cynhyrchiol o asiantaethau allanol i gyfoethogi’r cwricwlwm ar faterion pwysig megis diogelwch ar y wê a chynnal perthnasoedd iach o dro i dro. Mae trefniadau recriwtio diogel yn gadarn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a rennir gan yr holl staff. Mae’r weledigaeth hon yn seiliedig ar greu ysgol sy’n gosod y disgybl yng nghanol yr holl benderfyniadau. Mae dyhead a llais y disgybl yn dylanwadu ar elfennau o’r ddarpariaeth a’r cwricwlwm ac mae hyn yn cyfrannu at allu’r staff a’r disgyblion i ‘lwyddo gyda’i gilydd’. Mae’r staff yn dîm ymroddgar a gweithgar ac maent yn cydweithio’n dda â’i gilydd. Mae arweinwyr wedi creu diwylliant addas o ddiogelu, lle mae pob aelod staff yn ymwybodol o’u dyletswyddau ac yn ofalgar a gwyliadwrus o’r disgyblion.

Nid yw cyfrifoldebau’r uwch reolwyr wedi eu rhannu’n ddigon cytbwys. O ganlyniad, mae cynllunio strategol yr ysgol ar gyfer gwelliant yn fratiog. Nid oes gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o’u cyfrifoldebau ac mae llinellau atebolrwydd yn aneglur. Yn ychwanegol, mae arweinwyr wedi penodi cyfrifoldebau pellach i rai aelodau staff, ond eto, nid yw’r disgwyliadau ohonynt yn ddigon clir. Yn ddiweddar iawn, mae’r ysgol wedi creu dwy swydd rheolwr canol sydd â chyfrifoldeb am arwain adrannau o fewn yr ysgol, ond mae’n rhy gynnar eto i weld effaith y strwythur newydd hwn ar waith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn creu cynllun gwella gynhwysfawr yn flynyddol, ond nid yw'r broses o gynllunio ar gyfer gwelliant yn cynnwys mewnbwn ystyrlon a chyson gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y disgyblion a rhieni, wrth ei baratoi. Er bod uwch arweinwyr yn rhannu'r cynllun gyda'r llywodraethwyr ac yn gofyn am eu sylwadau, dim ond yn ddiweddar iawn maent wedi dechrau gofyn i'r staff am eu mewnbwn wrth bennu blaenoriaethau.

Er bod rhesymeg gryf i'r blaenoriaethau gwella cyfredol, nid ydynt yn deillio'n uniongyrchol o brosesau hunanwerthuso strwythuredig. Mae'r blaenoriaethau wedi eu seilio ar werthusiadau anffurfiol gan aelodau'r uwch dîm rheoli, ac nid ydynt yn adlewyrchu rhai meysydd pwysig i'w gwella, fel addysgu. Nid yw'r ysgol yn cynllunio amserlen sicrhau ansawdd a gweithgareddau defnyddiol fel monitro ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ac arfarnu cynnydd disgyblion. Mae hyn yn rhwystro arweinwyr rhag adnabod cryfderau a meysydd pwysig sydd angen eu gwella.

Mae athrawon yn cwrdd ag arweinwyr yn flynyddol i drafod targedau personol ar gyfer gwella eu hymarfer ac i gyfrannu tuag at flaenoriaethau ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau rheoli perfformiad staff yn ddigon miniog i gefnogi'r ysgol i sicrhau gwelliant yn ansawdd yr addysgu. Nid yw'r targedau sy'n cael eu gosod ar gyfer athrawon yn cyd-fynd yn ddigon agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn frwdfrydig. Maent yn ymroddgar ac yn angerddol dros wneud eu gorau er lles y disgyblion. Ar y cyfan, maent yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn briodol yn y rhan fwyaf o feysydd. Er enghraifft, maent yn ymwybodol o sefyllfa gyllidol yr ysgol ac maent yn cefnogi'r pennaeth wrth wneud penderfyniadau strategol, fel creu haen o arweinwyr canol. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gyffredinol sylfaenol am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, Maent yn or-ddibynnol ar dderbyn gwybodaeth ac arweiniad gan y pennaeth heb iddynt fod yn rhan ddigon cadarn o brosesau hunanwerthuso'r ysgol. O ganlyniad, nid ydynt yn cynnig digon o her yn eu rôl fel cyfeillion beirniadol.

Mae arweinwyr wedi sicrhau cyfleoedd i staff dderbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i ychydig o flaenoriaethau'r ysgol, er enghraifft wrth ddatblygu cwricwlwm yr ysgol ac wrth sicrhau gweithdrefnau gosod targedau penodol i ddisgyblion. Fodd bynnag, gan nad oes yna broses i fonitro effaith, nid yw'r ysgol yn hollol glir am effaith yr hyfforddiant ar safonau disgybion ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r ysgol wedi talu sylw teilwng i fwyafrif y blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu Cwricwlwm i Gymru a chydymffurfio â gofynion statudol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r agweddau hyn wedi derbyn sylw manwl gan y staff. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth addas i ymateb i effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol drwy sicrhau bod disgyblion cymwys yn derbyn yr holl adnoddau priodol a phob cyfle i ymgymryd â chwricwlwm ehangach, fel sesiynau offerynnol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi rhoi digon o sylw i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, ac o ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn datblygu'r medrau hyn yn systematig dros amser.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn synhwyrol. Maent wedi clustnodi swm sylweddol o danwariant i ailstrwythuro rolau arweiniol o fewn yr

ysgol. Rhoddir blaenoriaeth gadarn i sicrhau bod lefelau staffio'r ysgol yn briodol er mwyn diwallu anghenion unigol y disgyblion.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn meithrin perthnasoedd cynhyrchiol â nhw. Maent yn gwneud defnydd da o ddull digidol o gyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref. Defnyddia'r rhieni hwn yn rheolaidd i weld gwaith eu plant ac i gyfathrebu negeseuon pwysig i'r ysgol. Mae'r staff hefyd yn rhannu arweiniad defnyddiol gyda nhw ar sut i gefnogi dysgu a lles eu plant trwy'r system hon.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2023